Senedd Cymru
**Cysylltiadau Rhyngwladol**

# Ymweliad y Ceann Comhairle o Dáil Éireann, Seán Ó Fearghaíl

7 Mawrth 2024



Ar 7 Mawrth, croesawodd y Llywydd y Ceann Comhairle, Seán Ó Fearghaíl (Llywydd Senedd Iwerddon) i ystâd y Senedd.

Trefnwyd rhaglen fore ar gyfer y Ceann Comhairle fel rhan o'i ymweliad â'r Senedd. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod gyda'r Llywydd, Clerc y Senedd, Manon Antoniazzi yn ogystal â'r Cyfarwyddwyr Arwyn Jones a Siwan Davies.

Yn dilyn hynny, cynhaliwyd digwyddiad grŵp trafod gan y Dirprwy Lywydd a oedd yn cynnwys Aelodau o ddirprwyaeth BIPA y Senedd yn ogystal â'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, sydd wedi cynnal ymchwiliadau i edrych ar y berthynas a masnach rhwng Cymru ac Iwerddon.

Rhoddodd yr ymweliad byr ond llwyddiannus hwn yn gyfle i'r Senedd drafod ac arddangos nifer o feysydd y mae'r Senedd yn rhagori ynddynt, fel y Senedd hybrid barhaus yn ogystal â bod yr unig ddeddfwrfa gwbl ddwyieithog yn y DU. Roedd y pwnc o sicrhau mwy o amrywiaeth mewn cynrychiolaeth gyhoeddus ynghyd â'r angen i sicrhau cyfranogiad mwy diogel i'n cynrychiolwyr etholedig hefyd yn faterion o ddiddordeb ac yn destun pryder i'r ddwy ochr.

Roedd y sesiwn grŵp trafod hefyd yn effeithiol iawn ac arweiniodd at ganlyniadau go iawn, gan gynnwys rhaglen gyfnewid ddwyochrog rhwng ein Pwyllgorau ac ymweliad gan Bwyllgor yr Iaith Wyddeleg â'r Senedd yn cael ei ystyried ar gyfer y misoedd nesaf.




